Archwiliad Safle Bioamrywiaeth

Bydd archwilio'ch safle, cyn gwneud unrhyw gynlluniau i gynnwys bioamrywiaeth, o gymorth i ddatblygu cynllun priodol.

- Ar lefel ysgol, gall staff a disgyblion fod yn rhan ohono, er enghraifft fel rhan o archwiliad Bioamrywiaeth Ysgol-Eco
- Defnyddiwch arolwg neu archwiliad safle i adnabod:

1. rhywogaethau neu gynefinoedd ar y safle y dylid eu diogelu
2. tirlun, amwynder (e.e. ardal chwarae, ardal aros i rieni) a defnydd dysgu ac addysgu
3. ardaloedd gyda'r potensial i ddod yn fwy pwysig drwy newidiadau i drefn rheoli neu drwy greu cynefin. Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn arf gwerthfawr i'w ddefnyddio er mwyn asesu sut gallai'r newidiadau effeithio ar
4. mentrau rhywogaethau y gellid eu cynnal (gosod blychau nythu, blychau ystlumod, darparu planhigion bwyd). Unwaith eto mae CGB Pen-y-bont ar Ogwr yn werthfawr
5. arferion rheoli buddiol a niweidiol sy'n bodoli'n barod

- Ar lefel broffesiynol ecolegol, gellir gwneud hyn ar y cyd gydag asesiad BREEAM. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â hyn, edrychwch ar 'gynllun meistr' Dylunio Bioamrywiaeth yn <http://www.d4b.org.uk/keyConcepts/masterplanning/index.asp>